

Canllaw Eiddo Gwag

Hafren Dyfrdwy

Ebrill 2020

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee

Ein Canllaw i Gwsmeriaid

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cwsmeriaid sydd wedi symud i gartref newydd yn ddiweddar neu sydd â chwestiynau am eiddo gwag.

Rwyf newydd symud i'r eiddo, beth mae arnaf angen ei wneud?

Gwyddom y gall hi fod yn adeg wirioneddol gyffrous pan ydych yn symud i mewn i gartref newydd, ac mae arnom eisiau bod yn rhan o hynny! Ewch i'n [gwefan \(https://www.hdcymru.co.uk/my-account/moving-home/moving-within-our-area/\)](https://www.hdcymru.co.uk/my-account/moving-home/moving-within-our-area/), os gwelwch yn dda, i ddiweddarau'ch manylion, neu ysgrifennwch atom yn - Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF.

Beth sy'n digwydd os nad yw fy manylion gennych?

Cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda, ac fe allwch wneud hyn drwy ddiweddarau'ch manylion [yma \(https://www.hdcymru.co.uk/my-account/moving-home/moving-within-our-area/\)](https://www.hdcymru.co.uk/my-account/moving-home/moving-within-our-area/).

Mae'n bwysig bod eich manylion gennym, gan fod arnom eisiau darparu gwasanaeth cynaliadwy fydd yma yn awr ac yn y dyfodol. Heb fod yn gwybod pwy neu faint o bobl sy'n byw yn ein hardal, ni allwn filio'n iawn, na chynllunio ar gyfer ymyriadau a pharatoi ar gyfer galwadau ar ein rhwydwaith.

Os nad yw'ch manylion gennym, fe wnawn geisio cysylltu â chi drwy lythyr. Fodd bynnag, os nad ydym yn gallu cysylltu â chi, fe wnawn gysylltu â'n partneriaid 3^{ydd} parti fydd yn ymweld â'ch eiddo i wirio a oes meddiannaeth ai peidio. Yn ychwanegol, fe fydd ein partneriaid cyfeirio yn cynnal chwiliadau credyd ar eich cartref.

Os nad ydych wedi derbyn bil yn y 12-18 mis diwethaf, efallai nad oes gennym y manylion cywir amdanoch. A fyddech cystal â [chysylltu â ni \(https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/\)](https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/) gan ddefnyddio [sgwrsio byw](#), [cyfryngau cymdeithasol](#), [e-bost](#) neu dowch i gysylltiad drwy'n ffonio ar 0345 7500 500. Fe allwch bob amser ysgrifennu atom yn - Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF.

Mae fy eiddo'n wag – a oes yn rhaid imi ddal i dalu taliadau dŵr?

Os ydych wedi symud o eiddo, os ydych yn adnewyddu'ch cartref neu os ydych yn landlord. Os oes angen cyflenwad dŵr ar gyfer unrhyw ddiben, yn cynnwys gwresogi, yna fe fydd hi'n ofynnol ichi dalu am y gwasanaeth hwn.

Neu fel arall, fe allech ystyried cael mesurydd dŵr wedi'i osod. Bydd hyn yn golygu eich bod ond yn talu am yr hyn rydych yn ei ddefnyddio yn yr eiddo, ac fe allai arbed arian ichi yn y cyfnod hir. Gallwch wneud cais am fesurydd dŵr [yma \(https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/faqs/how-can-i-get-a-water-meter/\)](https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/faqs/how-can-i-get-a-water-meter/).

Os byddai'n amgenach gennych ond cael y cyflenwad dŵr wedi'i ddatgysylltu, fe allwn drefnu datgysylltiad sy'n ddi-dâl. Fodd bynnag, er mwyn ailgysylltu'r eiddo hwn, fe fydd hi'n ofynnol talu £62 o ffi ailgysylltu. Bydd unrhyw daliadau defnyddio'n cael eu diddymu o'r dyddiad y derbynnir cadarnhad o'r datgysylltu.

Rwyf yn landlord neu'n asiant gosod, beth mae arnaf angen ei wneud?

Er y 23^{ain} o Dachwedd, 2015, mae yna rwymedigaeth gyfreithiol ar bob landlord sy'n gweithredu yng Nghymru i gofrestru â Rhentu Doeth Cymru – dyna'r gyfraith o dan Ddeddf Tai (Cymru), 2014. Mae hyn hefyd yn golygu bod yn rhaid i bob landlord yng Nghymru hysbysu'u cwmni dŵr lleol am unrhyw newid mewn tenantiaeth (symud i mewn, symud allan neu eiddo gwag) o fewn 21 niwrnod o unrhyw newid. Bydd methu â gwneud hyn yn golygu y bydd y landlord yn atebol am y taliadau dŵr neu garthffosiaeth a achoswyd yn ystod y cyfnod y peidiwyd â chydymffurfio. I gael mwy o wybodaeth, fe all landlordiaid fynd i wefan [Rhentu Doeth \(https://www.rentsmart.gov.wales/en/\)](https://www.rentsmart.gov.wales/en/).

Sut y gall bod yn rhan o'r cynllun Landlord TAP fod o gymorth i mi?

Mae gan [Landlord TAP \(https://www.landlordtap.com/\)](https://www.landlordtap.com/) fuddion i bob landlord ac asiant rheoli ledled Cymru, megis:

- 1) Caniatáu ichi ddweud wrthym yn gyflym am newidiadau i fanylion eich tenantiaid, yn cynnwys eu cytundeb tenantiaeth a'i hyd;
- 2) Golyga hyn ein bod yn gwybod pa bryd y daw eiddo'n wag;
- 3) Gallwch ein hysbysu p'un a ydych yn dymuno gwerthu neu roi'r gorau i reoli'r eiddo.

Sut y gall Hafren Dyfrdwy fy nghynorthwyo?

Deallwn y byddwn ein canfod ein hunain mewn sefyllfaoedd anodd weithiau; er enghraifft, os ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi mynd i'r ysbty neu wedi mynd i ofal. Rydym yma i'ch cynorthwyo drwy'r adegau hyn, ac felly gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda. Mae yna laweroedd o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni (<https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/>); 03457 500 500, [sgwrsio byw](#), [cyfryngau cymdeithasol](#), [e-bost](#) neu ysgrifennwch atom yn - Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF.

Er mwyn inni ddechrau'ch cynorthwyo cyn gyflymed â phosibl, efallai y bydd arnoch eisiau dechrau casglu rhywfaint o'r wybodaeth a ganlyn cyn ichi ffonio:

- Eich manylion chi / manylion aelodau'ch teulu, yn cynnwys eu cyfeiriad a'u dyddiad geni;
- Rhif cyfrif Hafren Dyfrdwy (os ydyw ar gael);
- A oes rhywun yn berchen ar yr eiddo / yn rhentu'r eiddo;
- Darlleniad cyfoes o'r mesurydd dŵr (os ydyw ar gael);
- Enw llawn, cyfeiriad i flaenyrru a rhif ffôn cyswllt y person neu'r 3^{ydd} parti sy'n gyfreithiol yn gofalu am eich materion chi neu aelod o'ch teulu.

Bydd cael yr wybodaeth hon yn caniatáu inni neilltuo perchnogaeth cyfrif i rywun arall tra eich bod chi / eich teulu yn cael y cymorth y mae arnoch ei angen.

Os ydych yn mynd drwy'r broses profiant ar hyn o bryd, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, ac fe fydd un o'n tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn gallu'ch cynorthwyo â hyn.

Sut y gall Hafren Dyfrdwy ddarparu cymorth cyfnod hir i mi / fy nheulu?

Deallwn fod arnoch chi / eich teulu angen cymorth cyfnod hir weithiau. Gallwn gynnig cymorth hollol unswydd bwrpasol ichi drwy'ch trosglwyddo i'n [Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth](https://www.hdcymru.co.uk/get-in-touch/join-our-priority-services-register/) (PSR) (<https://www.hdcymru.co.uk/get-in-touch/join-our-priority-services-register/>). Mae hwn yn wasanaeth am ddim, ac mae'n golygu y gallwn ddysgu ychydig mwy amdanoch, ac mae'n ein helpu ninnau i ddeall eich anghenion penodol a sut y gallwn eich cynorthwyo orau.

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn bodoli i'ch cynorthwyo chi, p'un a ydych chi / aelod o'ch teulu yn wynebu gwaeledd, pryderon ariannol, rhwystrau iaith neu afiechyd corfforol / seicolegol. Rydym ar gael i geisio darparu cymorth i chi a'ch teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae gennyf fwy o gwestiynau am y polisi hwn?

Os oes gennych ragor o gwestiynau o gwbl am y polisi uchod, cofiwch beidio â phetruso cyn [cysylltu â ni](https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/) (<https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/>) neu ysgrifennwch atom yn - Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF, ac fe geisiwn ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.